



LLŶR

Llŷr 1

Gwynt Arnofiol ar y môr

Defnyddio Ynni Cymru

Cwestiynau Cyffredin



FLOVENTIS
ENERGY



LLŶR

Cwestiynau Cyffredin

Yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid hyd yma, rydym wedi llunio rhestr o Gwestiynau Cyffredin i ymdrin â'r ymholiadau mwyaf cyffredin sydd wedi cael eu codi mewn perthynas â'n cynlluniau i ddatblygu fferm wynt arnofiol ar y môr yn y Môr Celtaidd.

Pwy yw Floentis Energy?

Mae SBM yn fusnes ynni ar y môr rhyngwladol blaenllaw sydd â hanes sy'n ymestyn dros 60 mlynedd o arloesi ar y môr. Fel menter ar y cyd â'r cwmni datblygu prosiectau, Cierco Energy, Floentis yw ein henw ni. Gyda phortffolio o brosiectau yn y DU ac UDA, mae Floentis ar flaen y gad o ran y trawsnewid byd-eang i gynhyrchu pŵer gwyrdd ar raddfa fawr o ynni gwynt arnofiol ar y môr.

Beth yw ynni gwynt arnofiol ar y môr?

Mae gwynt arnofiol ar y môr yn golygu defnyddio tyrbinau sy'n sefyll ar strwythurau arnofiol sy'n caniatáu i'r tyrbîn gynhyrchu pŵer mewn dyfnderoedd dŵr nad yw'n ymarferol ar gyfer tyrbinau sylfaen sefydlog. Mae'r strwythurau arnofiol yn debyg i lwyfannau arnofiol sydd wedi cael eu defnyddio ers degawdau yn y diwydiant olew a nwy, felly maen nhw wedi cael eu dylunio i gadw'r strwythur yn sefydlog ar y môr. Mae'r tyrbinau sy'n arnofio wedi'u cysylltu â gwely'r môr gydag angorau a llinellau angori sy'n golygu bod modd gosod ffermydd gwynt arnofiol mewn dyfroedd llawer dyfnach ac ymhellach allan i'r môr. Mae sawl mantais i hyn, o fanteisio ar wyntoedd cryfach a mwy cyson, i lai o effeithiau gweledol ac amgylcheddol. Mae technolegau gwynt arnofiol ar y môr hefyd yn datgloi manteision economaidd mawr a chyfluoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer yr ardal leol.

Pam fod angen ynni gwynt arnofiol ar y môr arnom?

Mae datblygu gwynt arnofiol ar y môr yn hanfodol i ddatgarboneiddio cyflenwad ynni'r DU a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi gosod ymrwymadau sy'n gyfreithiol rwymol i fod yn sero-net erbyn 2050. Gall gwynt ar y môr chwarae rhan bwysig yn hyn, gyda Llywodraeth y DU yn gosod targed o 50 gigawat (GW) o ynni gwynt erbyn 2030, digon i bweru pob cartref yn y DU.

Mae gan dechnoleg gwynt arnofiol y potensial i ddatgloi ardaloedd newydd - gan gynnwys y dyfroedd dwfn oddi ar arfordir Cymru - a chyfrannu'n sylweddol at gynyddu cynhyrchiant ynni gwynt ar y môr.

Pam ydych chi wedi dewis y safle hwn?

Mae'r Môr Celtaidd yn cynnig potensial rhagorol o ran adnoddau gwynt ar gyfer gweithredu technoleg gwynt arnofiol ar y môr. Mae hwn yn adnodd carbon isel sylweddol nad yw wedi bod yn bosibl ei gyrraedd o'r blaen oherwydd dyfnder y dŵr. Ar ben hynny, mae adroddiadau'n awgrymu bod gan y Môr Celtaidd batrymau tywydd gwahanol i Fôr y Gogledd, sy'n golygu y bydd manteision system i grid y DU.



Ble fydd Llŷr 1 yn cael ei leoli?

Bydd Llŷr 1 wedi'i leoli yn y Môr Celtaidd. Ar ei bwynt agosaf, bydd y prosiect oddeutu 36km i ffwrdd o arfordir Cymru, 55km i ffwrdd o Ynys Wair a 72km i ffwrdd o arfordir Dyfnaint.

Faint o gartrefi fyddwch chi'n eu pweru?

Disgwylir i allbwn Llŷr 1 bweru ychydig dros 100,000 o gartrefi gydag ynni glân a gwyrdd.¹

Ble fyddwch chi'n cysylltu â'r grid?

Mae'r pwynt cysylltu agosaf wrth ymyl Gorsaf Bŵer Penfro ac rydym wedi gwneud cais i Weithredwr System Drydan National Grid (NGESO), y sefydliad sy'n gyfrifol am gysylltiadau â'r National Grid, i gysylltu yma.

Ble fyddwch chi'n dod â'r ceblau ar y tir?

Er mwyn cysylltu â'r pwynt cysylltu, roedd angen i ni nodi lle gallwn ddod â'r ceblau ar y tir (a elwir yn lanfa). Yn dilyn gwaith asesu technegol, rydym wedi dewis Freshwater West fel y man mwyaf addas ar gyfer y lanfa. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn ein Taflen Wybodaeth Ymgynghori.

Pwy yw eich partneriaid technoleg?

Rydym yn ystyried nifer o dechnolegau ar gyfer y tyrbinau a'r cyfarpar arnofio. Disgwylir i'n dewis o dechnoleg gael ei gadarnhau diwedd 2024.

Pa mor hir yw oes weithredol y prosiect?

Bydd cylch oes y prosiect yn para hyd at 30 mlynedd.

Sut ydych chi'n bwriadu datgomiysu'r prosiect?

Rhagwelir y bydd y prosiect yn weithredol am hyd at 30 mlynedd o'r comisiynu terfynol, wedi'i ddilyn gan broses ddatgomiysu y disgwylir iddi gael ei chwblhau o fewn 12 mis. Bydd y broses ddatgomiysu yn adlewyrchu'r broses osod i raddau helaeth, ond yn y drefn wrthol, gyda'r llwyfannau a'r angorfeydd yn cael eu tynnu a'u dychwelyd i borthladdoedd lleol i'w datgymalu a'u gwaredu. Cytunir ar fanylion terfynol y gwaith datgomiysu arfaethedig tua diwedd oes weithredol 30 mlynedd y prosiect, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol. Tybir y bydd yr holl seilwaith sydd wedi'i gladdu yn cael ei adael yn y fan a'r lle er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl, ond bydd manylion y broses ddatgomiysu yn cael eu pennu mewn Cynllun Datgomiysu, a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal arno.

¹ Yn seiliedig ar ystadegau R-UK

<https://www.renewableuk.com/page/UKWEDExplained/Statistics-Explained.htm>

Sut bydd y prosiect o fudd i'r economi leol ac i gymunedau lleol?

Mae Llŷr 1 yn gyfle buddsoddi mawr i'r ardal leol, Sir Benfro a Chymru, ac rydym am i'r gymuned leol elwa o'n buddsoddiad. Mae adroddiadau annibynnol yn awgrymu y byddai'r GW cyntaf o ynni gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd yn creu cynifer â 3,000 o swyddi a bron £700m o gyfleoedd cadwyn gyflenwi i Gymru a Chernyw dros y degawd nesaf yn unig.

Yn wahanol i unedau sydd wedi'u gosod ar wely'r môr (sy'n cael eu hadeiladu ar y môr), mae angen adeiladu tyrbinau arnofiol yn llwyr ar y tir (ar ochr y cei) cyn eu tynnu i'r môr i'w gosod. Mae hyn yn golygu cyfleoedd economaidd mawr i'r economïau lleol o amgylch porthladdoedd a chadwyni cyflenwi lleol sydd angen gwasanaethu'r gwaith o adeiladu a chynnal a chadw ffermydd gwynt arnofiol. O ganlyniad, rydym wrthi'n ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru a de-orllewin Lloegr.

Sut bydd y prosiect yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol?

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i ddeall effeithiau posibl y prosiect ar yr amgylchedd ac ar gymunedau lleol, ac i nodi ffyrdd o osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau. Er mwyn helpu i lywio'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cynnal asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau arwyddocaol tebygol, ac mae'r rhain i'w gweld yn ein taflen wybodaeth ymgynghori.

Pryd fydd y ceisiadau'n cael eu cyflwyno?

Rydym ni'n bwriadu cyflwyno ein ceisiadau ar gyfer y cydsyniadau ar gyfer Llŷr 1 yng ngwanwyn 2024.

Sut alla i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y prosiect?

Cofrestrwch i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect drwy anfon e-bost at info@llyrwind.com

Sut alla i gofrestru ar gyfer cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi?

O's oes gennych chi ddi-ddordeb mewn bod yn gyflenwr posibl a chyflenwi gwasanaethau i Brosiectau Llŷr, cofrestrwch eich manylion ar ein Cofrestr Cadwyn Gyflenwi: www.llyrwind.com/our-supply-chain



FLOVENTIS
ENERGY

www.llyrwind.com

